



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)

# Canllaw Diwygiedig i Banel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol o Dan Adran 143A o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac Adran 39 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015

## 1. Cefndir

- 1.1. Cafodd Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (“Deddf 2013”) ei Chydsyniad Brenhinol ar 30 Gorffennaf 2013. Ei phrif ddiben oedd diwygio strwythur a swyddogaethau'r hyn a elwir bellach yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Fodd bynnag, roedd darpariaethau eraill yn ymwneud â llywodraeth leol a materion cysylltiedig, gan gynnwys:
  - Caniatáu i brif gynghorau benodi Aelodau Llywyddu i gadeirio eu cyfarfodydd, yn hytrach na'r cadeirydd dinesig neu faer traddodiadol;
  - Galluogi awdurdodau lleol i gefnogi neu wrthwynebu Biliau preifat yn y Cynulliad Cenedlaethol, yn hytrach na Senedd y DU, os mai dyna'r ddeddfwrfa briodol;
  - Gofyn i gynghorau tref a chymuned gyhoeddi gwybodaeth ar y Rhyngwrwd;
  - Diwygio darpariaethau o fewn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (“Mesur 2011”) sy'n ymwneud â phresenoldeb o bell yng nghyfarfodydd y cyngor a chyfansoddiad pwyllgorau archwilio a gwasanaethau democrataidd, a
  - Galluogi awdurdodau lleol i sefydlu pwyllgorau safonau ar y cyd.
- 1.2. Yn ogystal, cafodd cyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, o fewn Mesur 2011, eu diwygio gan Ddeddf 2013 mewn nifer o ffyrdd, ond yn enwedig o ran cyflog Penaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig rhai awdurdodau lleol.
- 1.3. Mae Penaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig yn swyddi statudol a gyflwynwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Mae gofyn i brif gynghorau a rhai awdurdodau lleol eraill ddynodi un o'u swyddogion yn Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig. Prif weithredwr y cyngor yw hwn fel arfer. Mae gofyn i'r swyddog hwn gynghori'r cyngor ynghylch cyflawni ei swyddogaethau ac o ran nifer a threfniadaeth ei staff. At ddiben y canllaw hwn, ystyrir y term Prif Weithredwr fel y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig a/neu Brif Swyddog Tân.
- 1.4. Mae Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 (“y Ddeddf”) yn cynnwys darpariaethau a luniwyd i baratoi ar gyfer ailstrwythuro llywodraeth leol yng Nghymru dros y blynyddoedd nesaf. Mae'n cynnwys darpariaethau sy'n:
  - Caniatáu i brif awdurdodau uno'n wirfoddol;
  - Darparu ar gyfer sefydlu pwyllgorau pontio i baratoi ar gyfer awdurdodau newydd;
  - Galluogi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i adolygu'r trefniadau etholiadol ar gyfer yr ardaloedd newydd arfaethedig;
  - Galluogi'r Panel i bennu cydnabyddiaeth ariannol aelodau'r cynghorau arfaethedig;

- Gosod cyfyngiadau ar awdurdodau presennol rhag iddynt wneud trafodion penodol cyn uno a'i gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth benodol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau eraill.
- 1.5. Mae adran 29 *et seq* o'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i osod cyfyngiadau ar, ymhlith pethau eraill, trafodion penodol a recriwtio gan "awdurdodau sy'n uno". Mae "awdurdod sy'n uno" yn golygu prif awdurdod sydd i gael ei uno i brif ardal newydd, naill ai drwy reoliadau uno (uno gwirfoddol) neu yn rhinwedd Bil a gyflwynir yn y Cynulliad gan Weinidogion Cymru neu un o Ddeddfau'r Cynulliad.
  - 1.6. O ran recriwtio, gall cyfarwyddiadau osod cyfyngiadau ar recriwtio arfaethedig i swyddi penodol, gan gynnwys prif swyddogion. Pe byddai Gweinidogion Cymru'n penderfynu rhoi cyfarwyddiadau o dan is-adran (1), ni cheir recriwtio prif swyddog heb gydsyniad unigolyn a enwir yn y cyfarwyddyd. Pe byddai Gweinidogion Cymru'n rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (3), byddai'n rhaid i'r awdurdod gydymffurfio â gofynion penodedig. Gall cyfarwyddiadau – ac felly'r cydsyniad neu'r gofynion – gynnwys materion sy'n gysylltiedig â chyfnod unrhyw benodiad a'r gydnabyddiaeth ariannol ar ei gyfer.
  - 1.7. Mewn penodiad a wneir yn ddarostyngedig i'r cyfarwyddiadau Gweinidogol a ddisgrifir, nid yw cyfrifoldeb y Panel o dan adran 143A o Fesur 2011 i wneud argymhellion ynghylch y tâl sy'n gysylltiedig â'r swyddi hyn yn berthnasol os rhoddir y cyfarwyddyd mewn perthynas â chynnig i dalu i'r person gyflog sy'n wahanol i gyflog rhagflaenydd y person.
  - 1.8. Mae adran 39(1) o'r Ddeddf hefyd yn darparu bod adran 143A o Fesur 2011 yn cael yr effaith a ganlyn: caiff swyddogaethau'r Panel o ran Prif Swyddogion Gweithredol eu hymestyn i gynnwys holl "brif swyddogion" y prif awdurdodau. Mae cyfyngiad amser ar y ddarpariaeth hon, sy'n para o'r adeg y daeth y ddarpariaeth hon i rym y diwrnod ar 25 Ionawr 2016 tan 31 Mawrth 2020. Hwn yw'r diwrnod cyn y "diwrnod breinio" arfaethedig, pan fyddai'r awdurdodau cysgodol ar gyfer y prif ardaloedd newydd yn cymryd drosodd gyfrifoldebau gan y prif awdurdodau sy'n bodoli ar hyn o bryd.
  - 1.9. Mae'r diffiniad o "brif swyddog" yn adran 39 wedi cael ei gymryd o Ddeddf Lleoliaeth 2011:

- (a) pennaeth ei wasanaeth cyflogedig a ddynodir o dan adran 4(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;
- (b) ei swyddog monitro a ddynodir o dan adran 5(1) o'r Ddeddf honno;
- (c) prif swyddog statudol a ddynodir yn adran 2(6) o'r Ddeddf honno;
- (d) prif swyddog anstatudol a grybwyllir yn adran 2(7) o'r Ddeddf honno;
- (e) dirprwy brif swyddog a grybwyllir yn adran 2(8) o'r Ddeddf honno.

Mae'r disgrifiadau ar gyfer (c)-(e) a ddefnyddir yn Neddf 1989 fel a ganlyn (yn gryno): Mae "prif swyddogion statudol" yn cynnwys—

- (a) y prif swyddog addysg neu'r cyfarwyddwr addysg
- (b) prif swyddog brigâd dân
- (c) cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol neu'r prif weithiwr cymdeithasol
- (d) y swyddog adran 151 neu'r prif swyddog cyllid

Ystyr "prif swyddog anstatudol" yw -

- (a) person y mae pennaeth gwasanaeth cyflogedig yr awdurdod yn gyfrifol yn uniongyrchol amdano;
- (b) person y mae'n ofynnol iddo adrodd yn uniongyrchol, neu berson sy'n atebol yn uniongyrchol, i bennaeth gwasanaeth cyflogedig yr awdurdod yng nghyswllt pob un neu'r rhan fwyaf o ddyletswyddau ei swydd; ac
- (c) unrhyw berson y mae'n ofynnol iddo adrodd yn uniongyrchol, neu berson sy'n atebol yn uniongyrchol, i'r awdurdod lleol ei hun neu unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r awdurdod, yng nghyswllt pob un neu'r rhan fwyaf o ddyletswyddau ei swydd.

Ystyr "dirprwy brif swyddog" yw, person y mae'n ofynnol iddo adrodd yn uniongyrchol, neu berson sy'n atebol yn uniongyrchol, i un neu ragor o'r prif swyddogion statudol neu anstatudol, yng nghyswllt pob un neu'r rhan fwyaf o ddyletswyddau ei swydd.

- 1.10. Mae adran 39(3) o'r Ddeddf yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i'r Panel mewn perthynas ag ymestyn dros dro ei swyddogaethau sy'n ymwneud â thâl prif swyddogion a ddisgrifir uchod.

Ymhellach, mae adran 40 yn diwygio adran 143A o Fesur 2011 i ganiatáu i awdurdod sydd wedi ymgynghori â'r Panel ynghylch gostyngiad arfaethedig mewn cyflog ostwng (ond nid cynyddu) y cyflog sy'n daladwy i bennaeth gwasanaeth cyflogedig (neu'r prif swyddog am gyfnod y ddarpariaeth honno) tra bo'n aros am argymhelliad y Panel. Mae hynny ar yr amod bod y contract y mae'r cyflog yn daladwy oddi tano yn caniatáu iddo gael ei newid wedi i argymhelliad y Panel gael ei ystyried.

Mae adran 40 hefyd yn darparu bod rhaid i'r Panel hysbysu Gweinidogion Cymru am unrhyw argymhelliad y mae'n ei wneud ynghylch cydnabyddiaeth ariannol swyddogion.

## **2. Cyfrifoldebau'r Panel o ran cyflog Prif Weithredwyr**

- 2.1. Roedd adran 63 o Ddeddf 2013 yn diwygio Mesur 2011 drwy fewnosod adran 143A newydd. Mae adrannau 141 i 160 o Fesur 2011 yn delio â thaliadau a phensiynau aelodau o awdurdod lleol a phwerau'r Panel mewn cysylltiad â nhw. Mae adran 143A yn galluogi'r Panel i gymryd golwg, mewn perthynas â phrif gynghorau ac awdurdodau tân ac achub, ar unrhyw beth yn eu Datganiad Polisi Cyflog sy'n ymwneud â chyflog eu Prif Weithredwr. Fel y nodir uchod, mae Deddf 2015 yn ymestyn y pŵer hwn am gyfnod i bob prif swyddog mewn prif awdurdod. At ddiben y canllaw hwn, mae cyflogau'n cynnwys taliadau a wneir gan awdurdod perthnasol i swyddog nad yw'n cael ei gyflogi gan yr awdurdod dan gontract am wasanaethau, yn ogystal â thaliadau cyflog a wneir i swyddog sy'n cael ei gyflogi gan wasanaeth cyflogedig o dan gontract cyflogaeth. Mae pŵer y Panel i wneud argymhellion, serch hynny, yn berthnasol yn unig i'r awdurdodau sy'n gorfod cyflwyno Datganiadau Polisi Cyflog (prif gynghorau ac awdurdodau tân ac achub)<sup>1</sup>.
- 2.2. Mae Datganiadau Polisi Cyflog yn ofyniad o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 (adrannau 38 i 43), i'w cyhoeddi yn flynyddol gan brif gynghorau ac awdurdodau tân ac achub. Diben y datganiad yw darparu tryloywder o ran dull awdurdod lleol i osod cyflog ei gyflogeion drwy nodi'r dulliau y pennir eu cyflogau. Yn benodol, mae'n rhaid iddo gynnwys:
- a) Polisiâu ar bob agwedd ac elfen cydnabyddiaeth ariannol Prif Swyddogion;
  - b) Dull cyhoeddi, a mynediad at wybodaeth yn ymwneud â phob agwedd ar gydnabyddiaeth ariannol Prif Swyddogion;
  - c) Polisi'r cyngor ar gydnabyddiaeth ariannol y cyflogeion sydd ar y cyflogau isaf;
  - d) Y berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol ei Brif Swyddogion a chyflogeion eraill.
- 2.3. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar y mater hwn.  
[\[http://cymru.gov.uk/topics/localgovernment/finandfunding/publications/payaccout/?lang=cy\]](http://cymru.gov.uk/topics/localgovernment/finandfunding/publications/payaccout/?lang=cy)

---

<sup>1</sup> Dylid nodi nad yw adran 64 o Ddeddf 2013, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i nodi corff cyhoeddus y gellid ei ychwanegu at y rhai y mae gan y Panel gyfrifoldebau amdanynt, yn berthnasol yng nghyswllt cyfrifoldebau'r Panel am dâl Prif Weithredwyr neu Brif Swyddogion.

- 2.4. Cynllunnir Datganiadau Polisi Cyflog er mwyn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â, yn benodol, cyflogau prif weithredwyr a staff ar y cyflogau isaf. Mynegir safbwynt Llywodraeth Cymru yng nghanllawiau Datganiadau Polisi Cyflog, gan nodi bod y broses o wneud penderfyniadau ar Ddatganiadau Polisi Cyflog yn cael ei gwneud yn gyhoeddus, yn agored i graffu ac yn amodol ar bleidlais pob aelod o'r cyngor. Atgyfnerthir hyn gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor hysbysebu yn gyhoeddus pan fo'n cynnig penodi prif swyddog a phan fo'r gydnabyddiaeth ariannol y mae'n bwriadu ei thalu o ran y rôl honno yn £100,000 y flwyddyn neu fwy.
- 2.5. Yn ogystal â gwneud argymhellion ynghylch unrhyw bolisi yn Natganiadau Polisi Cyflog yr awdurdod sy'n ymwneud â chyflog y prif weithredwr, mae adran 143A o Fesur 2011 hefyd yn darparu y gallai'r Panel wneud argymhellion o ran unrhyw gynnis i newid cyflog prif weithredwr. Mae'n rhaid i brif gynghorau ac awdurdodau tân ac achub ystyried unrhyw argymhellion a weir gan y Panel mewn perthynas â'r hyn a ddywedant yn eu Datganiadau Polisi Cyflog sy'n ymwneud â chyflog prif weithredwyr. Fel y nodir uchod, mae hyn bellach yn berthnasol hefyd i brif swyddogion prif awdurdodau.
- 2.6. Os yw prif gyngor neu awdurdod tân ac achub yn dymuno newid cyflog eu prif weithredwr, neu os yw prif gyngor yn dymuno newid cyflog prif swyddog, bydd rhaid iddo ymgynghori â'r Panel, oni bai bod y newid a ystyrir yn gymesur â chodiad neu ostyngiad cyflog cyffredinol i "aelodau eraill o staff yr awdurdod"<sup>2</sup>. Mae'n rhaid i'r cyngor neu'r awdurdod tân ac achub ystyried argymhelliad y Panel wrth wneud ei benderfyniad.
- 2.7. Gallai'r Panel ofyn am unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arno i'w helpu i ddod i gasgliad ar y mater a bydd yn rhaid i'r cyngor/awdurdod tân ac achub ddarparu'r wybodaeth honno. Gallai'r Panel gyhoeddi unrhyw argymhelliad y mae'n penderfynu ei gymryd.
- 2.8. Gallai argymhelliad y Panel gymeradwyo cynnig yr awdurdod lleol, gall fynegi beirniadaeth neu bryderon am y cynnig, neu gall argymhell amrywiadau ar y cynigion, ond mae'n rhaid iddo roi ystyriaeth i'r canllawiau hyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

### **3. Ystyriaeth y Panel**

- 3.1. Wrth ystyried cyflogau swyddogion, mae'n bwysig bod y Panel yn llwyr sylweddoli ei fod mewn sefyllfa wahanol yn ei hanfod mewn perthynas â chydabyddiaeth

---

<sup>2</sup> At ddibenion y canllaw hwn, gellir dehongli "staff" fel "swyddogion". Felly, nid yw'n cynnwys, er enghraifft, athrawon neu gyflogwyr rheng flaen sy'n darparu gwasanaethau.

ariannol aelodau yr awdurdodau lleol. Yn y sefyllfa ddiwethaf, y Panel yw'r canolwr terfynol yn y mater. Mae gan y Panel y pŵer i nodi'n union beth ddylai aelod o awdurdod lleol ei dderbyn, oni bai ei fod yn cyfyngu ei hun i nodi macsima yn lle hynny. Hyd yn oed yn y sefyllfa hon, y Panel, nid yr awdurdod lleol na Llywodraeth Cymru, sydd â'r pŵer i wneud y penderfyniadau.

- 3.2. I'r gwrthwyneb, mewn perthynas â phrif weithredwyr neu brif swyddogion, mae rôl y Panel yn gyfyngedig i gymryd golwg a gwneud argymhelliad. Er bod yn rhaid i'r awdurdod/awdurdodau lleol dan sylw ystyried yr argymhelliad hwn, nid oes rhaid iddynt ei ddilyn. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014) yn ei gwneud yn ofynnol i benderfyniad o'r fath gael ei wneud drwy bleidlais o'r cyngor llawn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r awdurdod, o dan adran 143A hysbysu Gweinidogion Cymru a'r Panel am ei ymateb i argymhelliad gan y Panel ynghylch newid i gyflog ei brif swyddog gweithredol. Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw ymateb awdurdod yn gyson ag argymhelliad y Panel, gallai Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r awdurdod ailystyried y cyflog.
- 3.3. Serch hynny, nid yw'r Panel yn penderfynu faint y mae prif weithredwr neu brif swyddog unigol yn cael ei dalu. Dylai hyn osgoi unrhyw angen i'r Panel gael ei dynnu i drafodaethau ag undebau llafur neu gymdeithasau proffesiynol, er enghraifft. Er na all rhywun ddiystyru'r posibilrwydd o her gyfreithiol i argymhelliad gan y Panel, mae'n llai tebygol oherwydd natur anuniongyrchol perthynas y Panel â'r penderfyniad terfynol. Fodd bynnag, yn achos prif swyddogion, efallai ei bod yn fwy tebygol y gallai'r Panel ddod o dan bwysau gan undebau llafur neu gymdeithasau proffesiynol, a allai fod o'r farn bod swyddogaeth y Panel yn ymyrryd â'u proses negodi.
- 3.4. Gofynnir i'r Panel ddefnyddio ei brofiad ac arbenigedd ei hun i benderfynu ar argymhelliad priodol ym mhob achos sy'n codi. Gofynnir i awdurdodau lleol ddarparu unrhyw wybodaeth i'r Panel y gallai ofyn amdani yn rhesymol wrth ddod i gasgliad ac mae hynny'n rhoi pŵer sylweddol i'r Panel gasglu gwybodaeth angenrheidiol. Gallai'r math o wybodaeth y gallai'r Panel ofyn amdani gynnwys y canlynol:
  - Papurau neu adroddiadau a baratowyd gan yr awdurdod mewn cysylltiad â'r mater;
  - Adroddiadau neu wybodaeth arall a ddarparwyd i'r awdurdod gan unrhyw ymgynghoriaeth, undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol;
  - Manylion am y pecyn cyfan sydd ar gael – neu sy'n cael ei ystyried – ar gyfer y prif weithredwr neu brif swyddog. Gallai hyn gynnwys hyd y contract sydd ar gynnig, trefniadau pensiwn, pecyn diswyddo, ffioedd swyddogion canlyniadau, bonysau perfformio, darpariaeth ar gyfer gwyliau blynyddol neu absenoldeb arall, taliad mewn nwyddau (ceir, er enghraifft) a chostau

adleoli. Efallai y bydd y Panel hefyd yn dymuno ystyried unrhyw gyd-ddibyniaeth sydd gan gyflogau unigol o fewn strwythurau cyflog;

- Gwybodaeth yn ymwneud â'r gydnabyddiaeth ariannol sydd ar gynnig i brif weithredwyr neu brif swyddogion awdurdodau lleol eraill. (*Noder: nid yw'r Panel yn gyfyngedig i ofyn am wybodaeth gan yr awdurdod lleol sy'n ystyried amrywiad mewn cyflog yn unig*).
  - Manylion cytundebau a wneir ar lefel y Cyd-gyngor Cenedlaethol.
- 3.5. Pe cyfyd sefyllfa lle gwneir dyfarniad cyflog i brif swyddogion ar draws yr awdurdodau lleol sy'n wahanol i'r hyn a ddyfernir i aelodau eraill o'r staff, o ganlyniad i negodi cenedlaethol yn ôl pob tebyg, caiff y Panel ystyried cynigion ar y cyd gan awdurdodau, yn hytrach na bod angen i bob awdurdod drafod â'r Panel ar wahân. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cyfyngu ar allu'r Panel i wneud gwahanol argymhellion i wahanol awdurdodau, os ydynt yn teimlo y gellir cyfiawnhau hynny.
- 3.6. Mae hefyd yn debygol y byddai'r Panel yn dymuno ystyried data mwy cyffredinol yn ymwneud â phrisiau ac incwm, y gall eu cael drwy berthnasedd â chydabyddiaeth ariannol aelodau o awdurdod lleol.
- 3.7. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn cyfyngu'r Panel i rôl ymatebol yn unig. Pe bai'n dymuno, gallai'r Panel ddefnyddio ei bŵer i wneud argymhellion yn ymwneud â darpariaethau o fewn Datganiad Polisi Cyflog awdurdodau lleol ar wahân i unrhyw gynnig i amrywio tâl prif weithredwr neu brif swyddog ar yr amod bod yr argymhelliad "yn ymwneud â" chyflog y prif weithredwr neu'r prif swyddog. Fodd bynnag, byddai angen i'r Panel ystyried a oes ganddo'r amser a'r adnoddau i gynnal ymarfer o'r fath gan gofio bod yr ysgogydd polisi y tu ôl i'r darpariaethau yn Neddf 2013 yn ymwneud â rheolaeth dros yr hyn a gâi eu hystyried yn benderfyniadau annerbyniol mewn perthynas â chodiad cyflog. Gallai defnyddio'r pŵer mewn ffordd sy'n anghyson â'i ddiben olygu her gyfreithiol. Serch hynny, mae'n golygu y gall unrhyw un gyfeirio mater sy'n ymwneud â thâl y prif weithredwr neu'r prif swyddog i'r Panel ei ystyried a gallai'r Panel benderfynu gweithredu ar y cyfeiriad hwnnw pe byddai'n teimlo bod angen gwneud hynny.
- 3.8. Mae angen ymgynghori â'r Panel os oes amrywiad am i lawr yn cael ei gynnig ar gyfer cyflog prif weithredwr neu brif swyddog (oni bai, fel yn achos codiad cyflog, ei fod yn gymesur â dull cyffredinol i gyflogau swyddogion yn yr awdurdod hwnnw). Mae'r Panel yn debygol o ystyried yr un math o ofynion tystiolaeth.
- 3.9. I gloi, pa ffactorau ddylai'r Panel eu hystyried wrth wneud argymhelliad? Y Panel sydd i wneud ei asesiad ei hun o ba ffactorau sy'n berthnasol wrth ddefnyddio ei ddisgresiwn mewn unrhyw achos penodol a faint o bwys a roddir iddynt. Fodd bynnag, mae'r paragraffau dilynol yn cynnwys yr hyn y mae Gweinidogion yn ei ystyried yn ffactorau allweddol i'w hystyried gan y Panel.



- 3.10. Wth recriwtio prif weithredwyr a phrif swyddogion, mae'n rhaid i gyrff y sector cyhoeddus ystyried pa gydnabyddiaeth ariannol sydd ei hangen er mwyn recriwtio a chadw'r bobl sy'n fwyaf cymwys. Dyna pam bod gwahaniaeth mawr yn aml rhwng y swyddog unigol sydd â'r cyflog uchaf ar lefel y prif weithredwr a'r lefel nesaf mewn awdurdod. Yn benodol mewn perthynas â Phrif Swyddogion Tân, mae angen i'r Panel gydnabod yr arbenigedd proffesiynol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd a bydd angen cyfeirio at y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Rheolwyr Brigâd Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol ("y Llyfr Aur").
- 3.11. Bydd angen i'r Panel fod yn sensitif i hyn ond hefyd dylai fynd ati mewn modd cytbwys. Mae'r hyn sy'n dderbyniol i'r cyhoedd yn ffactor dilys i'r Panel ei ystyried, ymysg eraill, ond ni ddylid rhoi pwys gormodol arno. Er bod y canfyddiad fod gwleidyddion a swyddogion cyhoeddus yn cael gormod o gydnabyddiaeth ariannol yn gallu bod yn bwnc llosg ymysg y cyhoedd, mae'n ddealladwy y gallai codiad cyflog sylweddol mewn swydd sydd eisoes â chyflog uchel gael ei feirniadu ar adeg pan fo amgylchiadau economaidd yn anodd i nifer o deuluoedd cyffredin. Mae angen i'r Panel fod yn ymwybodol hefyd mai un o'r rhesymau am y ddyletswydd newydd sy'n cael ei chyflwyno mewn perthynas â phrif swyddogion yw cyflwyno elfen o reolaeth dros unrhyw bosibilrwydd o wneud codiadau cyflog afresymol ychydig cyn i'r uno ddigwydd. Gallai codiadau hael gael effaith sylweddol ar hawl i becynnau pensiwn neu ddileu swydd.
- 3.12. Mae angen ystyried lefelau cyflog prif swyddogion gweithredol o fewn awdurdodau lleol tebyg. Yn ogystal, mae tueddiad i osod cyfyngiadau rhifyddeg ar y gwahaniaeth rhwng y staff ar y cyflog uchaf ac isaf mewn sefydliad, yn ogystal â'r gwahaniaeth rhwng y cyflog uchaf a'r ail gyflog uchaf. Y Panel fydd yn penderfynu p'un a ddylid rhoi sylw i hyn, a faint o bwys i roi iddo.
- 3.13 Bydd y Panel hefyd yn gallu ystyried a yw'r cyflog sy'n cael ei ystyried yn rhesymol ar gyfer yr ardal dan sylw.
- 3.14 Fel canlyniad, bydd y Panel am fodloni ei hun bod yr awdurdod lleol dan sylw wedi gwneud achos busnes clir dros newid arfaethedig ac wedi ystyried yr opsiynau. Dylid cymryd safbwynt y Panel ar ddiwedd, nid dechrau, y broses, fel y gall y Panel weld yr holl dystiolaeth y mae'r awdurdod wedi'i gymryd wrth wneud ei gynnig. Bydd hyn yn bwysig iawn wrth ystyried penodiad brys. Os bydd angen safbwynt y Panel yn gyflym, bydd angen iddo gael yr wybodaeth gefndirol yn barod.